Pethau a wnaed â dyfal bwyll
A'u graen yn para...

Teyrnged i Wil Petherbridge

Yn nyddiau coleg, roedd arna' i fymryn o arswyd pan fyddai'r diweddar Brinley Rees yn tynnu swp o bapurau o fol amlen felynfrown ac yn dechrau traethu ar englynion Llywarch Hen, neu pan fyddai Dafydd Glyn Jones yn mynd i'r afael â darlith arall ar gystrawen y frawddeg Gymraeg, neu pan fyddai Dr Enid Pierce Roberts yn rhannu ehangder anhygoel ei gwybodaeth am Feirdd yr Uchelwyr. Roedd arna' i barchedig ofn Wil, yn yr un modd.

Coleg Technegol Gwynedd, Bangor – dyna ble y deuthum i wybod amdano gyntaf. Un o'r darlithwyr economeg, di-Gymraeg a grybwyllodd y cyfenw annisgwyl, a dweud, "You must know Wil Petherbridge... He's a translator... He knows everything about translating..."

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, penderfynais ddilyn y cwrs blwyddyn, rhan-amser ar Astudiaethau Cyfieithu a oedd yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, a'i arwain gan y dywededig Wil Petherbridge. A chyn pen dim, gwelais fod hyd a lled ei wybodaeth am y maes – o ran arfer y grefft o ddydd i ddydd, ac o ran ysgolheictod cyfieithu - yn drawiadol, a dweud y lleiaf. Roedd ganddo linyn o lythrennau ar ôl ei enw: MA, MIL, MITI, Dip Trans (IoL). Roedd hefyd yn aelod o banel arholi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, yn arholwr ar gyfer Diploma Gyfieithu'r *Institute of Linguists* ac yn arholwr ar gyfer Aelodaeth Broffesiynol yr *Institute of Translation and Interpreting.*

Testun rhyfeddod llwyr i mi oedd sut y gallai rhywun a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith gael y fath afael ar deithi'r iaith, ar union arlliwiau ei geiriau ac ar

ei chyweiriau gwahanol, heb sôn am gael y ffasiwn feistrolaeth ar ei gramadeg a'i chystrawen.

'Hogi'r meddwl' yw'r priod-ddull sy'n brigo i'r wyneb wrth i mi ei gofio'n arwain ei seminarau a'i weithdai. Ar ôl dadansoddi ystyr gair drwy chwilio mewn toreth o eiriaduron, a phwyso a mesur clystyrau o gyfystyron mewn o leiaf un thesawrws (dau pe bai modd!), caem ein tywys i geisio cyfleu, yn yr iaith arall, ystyr fanwl y gair. Yn amlach na pheidio, ni fyddai'r geiriadur yn nodi union gyfystyr y gair yn y cyd-destun dan sylw. Byddai'n rhaid mynd 'tu hwnt i'r geiriadur', a dyna thema un o'r gweithdai.

Roedd gallu Wil i blymio i waelodion ystyr geiriau yn fy syfrdanu i, ac roedd ei gwrs yn agor byd hollol newydd, er fy mod wedi treulio nifer o flynyddoedd yn cyfieithu cyn ymuno â'r cwrs! Un o'r prif bethau a ddysgais oedd bod modd cyfieithu rhywbeth yn gywir mewn amryw byd o ffyrdd. Er enghraifft, mae modd defnyddio cyweiriau ieithyddol gwahanol ar gyfer 'cynulleidfaoedd' gwahanol. Mae modd newid trefn y frawddeg wreiddiol heb golli'r ystyr. Mae modd hollti brawddegau. Mae modd defnyddio priod-ddulliau gwahanol i gyfleu yr un ystyr... Yr agor meddwl yma oedd y peth cyffrous ar y pryd.

'Llym'. Disgyblaeth lem oedd cyfieithu i Wil, ac ar ddalen y byddai'n hoff iawn o'i thaflunio i ni yn y seminarau, roedd ganddo ddadansoddiad o'r camau y dylai pob cyfieithydd eu hystyried cyn ac wrth gyfieithu darn o waith e.e., meddwl ar gyfer pa fath o gynulleidfa y bwriedid y cyfieithiad. Byddai'r marciau coch (neu ddu las, fel arfer) yn drwch ar y cyfieithiadau a roid yn ôl i ni. Cymal wedi'i gamleoli... Ymadrodd chwithig... Gorgyfieithu... Amwysedd... Camddehongli... Priod-ddull Seisnig... Cystrawen wallus... Amser y ferf yn anghywir... Cywair anaddas... Roedd y cloriannu bob amser yn finiog, a'r sylwadau trylwyr ar y terfyn bob amser yn fonheddig a chalonogol.

Ystyriwch wedyn y gair 'ansawdd'. Am fod Wil, yn fwy na dim, yn mynnu'r safonau uchaf posibl wrth gyfieithu yr edmygwn i ef. Roedd yn berffeithydd

digyfaddawd mewn maes lle mae'r ffwrdd-â-hi'n gwneud y tro yn llawer rhy aml. "Pethau a wnaed â dyfal bwyll, a'u graen yn para" oedd cyfieithiadau da iddo.

Rhuddin. Sylwedd. Unplygrwydd. Annibyniaeth barn. Diffuantrwydd. Dim chwarae'r ffon ddwybig. Dim gweniaith. Y gwir dirodres, a dim arall. Yn hynny o beth, mae gennym gysur yng ngeiriau Waldo Williams:

> Nid oes yng ngwreiddyn Bod un wywedigaeth
> Yno mae 'n rhuddin yn parhau.
> Yno mae'r dewrder sy'n dynerwch
> Bywyd pob bywyd brau.

Fel cyn-fyfyriwr a thiwtor cynorthwyol ar y cwrs Astudiaethau Cyfieithu, cefais gip ar agwedd amlwg arall ar bersonoliaeth Wil – ei hiwmor. Yng ngweithdy ola'r cwrs ryw flwyddyn, penderfynais gyflwyno i'r dosbarth ddarn yn ymdrin â defnyddio'r We – uwd o ddarn yn llawn jargon ac Americaneg. Aeth Wil ati i'w ddadelfennu gydag un garfan o'r myfyrwyr, ac roeddwn innau'n ceisio gwneud yr un peth gyda charfan arall. Ystafell Seddon yn yr Hen Goleg oedd y man cyfarfod. Diwrnod hirfelyn, braf a glesni Bae Ceredigion yn ysgytwol. Yn sydyn, roedd Wil ar ei draed ac yn mynd i hwyl wrth ddarllen cyfieithiad y grŵp ar dop ei lais **yn acen hogia Bangor**! Roeddem yn ein dau ddwbl, a Wil yntau'n chwerthin yr un mor afreolus â phawb arall. Roedd hwyl wrth ac ar gyfieithu yr un mor bwysig iddo.

Roedd yn diwtor arbennig iawn. Rhoddai gefnogaeth gyfartal i bob un o'i fyfyrwyr. Nid oedd yna fyth fychanu ymdrech na fyth agwedd nawddoglyd chwaith. Byddai'n trin pob un â pharch ac amynedd mawr, a byddai wrth ei fodd yn dal pen rheswm gyda'i fyfyrwyr dros baned, yn yr egwyl rhwng seminar a gweithdy. Roedd y nodiadau y byddai'n eu darparu ar y gwaith theori a'r darnau cyfieithu'n ffrwyth ymchwilio a dadansoddi treiddgar iawn,

iawn. Cofiaf ei fod, mewn un seminar, wedi paratoi tudalen A4 o nodiadau ar y gair *'awkward'* yn unig! Roedd yn ysgolhaig gwylaidd.

Yn goron ar y cyfan, roedd ei gyfieithiadau athrylithgar ei hun – er enghraifft, o eiriau neu ymadroddion fel y rhai canlynol: 'cors o ddamcaniaethau' am *'a theoretical minefield',* 'teithiau tlawd' am *'shoestring tours'*, 'pan oedd mynd ar adeiladu amgueddfeydd' am *'the museum-building boom'*, 'andros o gaffi da' am *'an ace caff'* ac ati, ac ati.

Yng ngwasanaeth ei angladd, cafwyd ambell gyfeiriad cynnes o ddoniol (er enghraifft, ato ef a'i sgwter "nôl yn nyddiau Aber", ac at yr helmed a fyddai dan ei gesail yn wastadol). Fel arall, y gwir dirdynnol oedd hi – am y canser a ddiflannodd am sbel, a sleifio'n ôl... Ond hefyd llawenydd y Crist a oedd yn wrthrych popeth a wnâi. Cafwyd pregeth na chlywais ei thebyg.

> "Clywch! Yr wyf yn mynegi dirgelwch ichwi: nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid, mewn eiliad, ar drawiad amrant... oherwydd **rhaid** i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb."

Nid rhyfedd i Wil adael y byd hwn – yn ôl tystiolaeth un a oedd gydag ef tan y diwedd – yn "hollol barod ac yn dawel".

Yn hollol barod ac yn dawel. Wil i'r carn.

Roedd yn anrhydedd cwrdd â'i deulu ddiwrnod y diolch am ei fywyd, a chydymdeimlwn yn fawr â hwy yn eu colled enbyd a'u hiraeth.

Ieuan Bryn